HER FAWR

# UWCHARWYR YSGOLION



## Canllaw hawdd iawn i wneud

# GWISG UWCHARWR

**Byddwch angen:**

- Crys-t mawr (gofynnwch i'ch rhiant neu ofalwr a oes ganddyn nhw hen un y gallwch ei gael)
- Ychydig o ffelt neu ddefnydd ar gyfer eich arwyddlun uwcharwr
- Siswrn
- Glud ffabrig
- Gliter, pennau ffabrig ac unrhyw beth rydych chi eisiau ei ddefnyddio i addurno eich gwisg
- Rhuban neu elastig
- Felcro (dewisol)
- Cerdyn am eich mygwd

## BYDDWCH YN DDIOGEL:

**Gall torri o gwmpas defnydd fod yn anodd.**

Gwnewch yn siŵr bod oedolyn wrth law i'ch helpu chi a gofynnwch iddyn nhw wneud y gwaith torri ar eich rhan, os oes angen

## MWGWD:

1. Torrwch allan dempled y mwgwd a roddodd eich athro i chi.
2. Defnyddiwch gliter a phennau i'w addurno.
3. Torrwch allan dyllau bach naill ochr o'ch mwgwd ac edafu naill ai rhuban neu ychydig o elastig drwy'r tyllau.

## GWREGYS:

1. Defnyddiwch y defnydd o'r tu blaen i'r crys-t-torrwch un stribed hir oddeutu 7cm o led.
2. Defnyddiwch eich ffelt neu ddefnydd i dorri siâp bwcl allan a'i ludio ar ganol eich stribed o ddefnydd.
3. Gallwch naill ai glymu'r gwregys o gwmpas eich gwast, gan glymu cwlwm yn y cefn, neu ddefnyddio ychydig o felcro i'w ddiogelu.

## CLOGYN:

1. Ar ddarn mawr o bapur, tynnwch lun eich arwyddlun uwch-arwr. Gallech efallau gopïo Superwoman, ystlum Batman neu ddylunio rhywbeth eich hun hyd yn oed. Beth am ddefnyddio llythyren gyntaf eich enw neu'ch ysgol?
2. Torrwch eich arwyddlun allan a'i osod ar ddarn o ffelt neu ddefnydd. Tynnwch linell o gwmpas eich llun papur.
3. Defnyddiwch eich siswrn i dorri o gwmpas y siâp ar y ffelt neu ddefnydd yn ofalus.
4. Mae eich arwyddlun nawr yn barod i'w addurno, ym mha ffordd bynnag rydych chi eisiau.
5. Gan ddefnyddio darn mawr o bapur, torrwch allan siâp clogyn.
6. Rhowch hwn ar gefn eich crys-t, a thynnwch linell o'i gwmpas.
7. Torrwch o gwmpas eich siâp, a phan fyddwch yn cyrraedd brig y crys-t, parhewch i dorri o gwmpas y llinell gwddf fel ei fod ynghlwm wrth y clogyn o hyd.
8. Gludiwch eich arwyddlun ar gefn eich clogyn.

**Rhywbeth ychwanegol dewisol:** Torrwch trwy linell y gwddf yn y tu blaen, yna gludiwch felcro ar y naill ochr i ddiogelu'r pennau yn ôl gyda'i gilydd.

**RYDYCH CHI NAWR YN BAROD AR GYFER HER FAWR UWCHARWYR YSGOLION!**


Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant

Registered Charity Number: 1069485

# CREATE YOUR OWN MASK

An idea to help you get started.







Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant

# CREATE YOUR OWN MASK

An idea to help you get started.







Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant

# CREATE YOUR OWN MASK

An idea to help you get started.






Noah's Ark
Children's Hospital Charity
Elusen Ysbyty Plant